

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Merthyr Tudful (Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful)

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Merthyr Tudful i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Merthyr Tudful bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Merthyr Tudful 8 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Merthyr Tudful gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ar ran y Cyngor Bwrdeistref. Mae'r gwasanaeth wedi perfformio'n dda drwy gydol y fframwaith ac mae'n un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffael. Mae ymgynghori rheolaidd hefyd yn sicrhau bod lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid wedi parhau'n uchel drwy gydol y fframwaith, gan fod Merthyr yn gallu rhagweld anghenion ei gymuned a darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Yn wahanol i lawer o wasanaethau llyfrgell eraill yng Nghymru, mae Merthyr Tudful wedi gweld cynnydd yn y rhan fwyaf o ffigurau mewn perthynas â defnyddwyr, gan gynnwys nifer y llyfrau sy'n cael eu benthg gan oedolion a phlant a nifer yr aelodau. Mae lefelau staffio wedi parhau ar lefelau 2017/18, ond maent yn parhau'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth yn dweud ei fod yn teimlo ei fod yn defnyddio ei staff er budd cwsmeriaid. Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid i ddarparu gweithgareddau priodol ar gyfer ei gymunedau, a'r her fydd cynnal lefelau adnoddau er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon.

- Mae Merthyr Tudful yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn.
- Cynhaliodd Merthyr Tudful ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Mawrth 2020. Nid oes newidiadau ers yr arolwg diwethaf (oedolion a phlant) a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2019. Mae lefelau bodlonrwydd yn parhau'n uchel iawn ac mae'r gwasanaeth yn y safle uchaf neu'r uchaf ond un yng Nghymru ar gyfer y rhan fwyaf o'r dangosyddion.
- Mae gwariant ar gaffaeliadau wedi cynyddu unwaith eto yn 2019/20, gan arwain at gynnydd o 8.5% er 2017/18. Mae'r budd i'w weld ar ffurf cynnydd mewn benthyciadau llyfrau oedolion a phlant ac mewn lefelau aelodaeth, yn wahanol i'r patrwm yng Nghymru (a'r Deyrnas Unedig).
- Mae'r targedau staffio (DA 13) yn parhau heb eu cyflawni, ac mae cyfanswm y staff a chyfanswm y staff proffesiynol yn is na'r canolrif yng Nghymru.
- Mae darpariaeth TGCh y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio'n dda, a dim ond un gwasanaeth arall yng Nghymru sydd â mwy o ddefnydd o gyfrifiaduron.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Merthyr Tudful yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Mae Merthyr yn parhau i ymgynghori â defnyddwyr yn flynyddol, gan sicrhau bod prosiectau sy'n cael eu cynnal yn seiliedig ar wybodaeth gan y gymuned. Gwelwyd pwyslais parhaus ar ddarparu ystod o weithgareddau, digwyddiadau a rhaglenni newydd. Gan fod Merthyr Tudful yn ardal ddifreintiedig iawn, gallai'r sesiynau hyn ddod â budd cadarnhaol iawn i'r gymuned. Mae datblygu staff yn parhau'n flaenoriaeth a cheir tystiolaeth ohono mewn adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019-20, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 8 ohonynt yn llawn ac 1 ohonynt yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	√	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	√	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

Mae Merthyr Tudful wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac ni fu unrhyw newid arwyddocaol er 2018/19. Mae Merthyr yn un o bedwar awdurdod lleol yn unig sydd wedi cyflawni 8 DA yn llawn ac 1 yn rhannol. At ei gilydd, mae perfformiad wedi gwella ers blwyddyn gyntaf y fframwaith adrodd.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Merthyr ei arolwg diweddaraf o ddefnyddwyr sy'n oedolion a defnyddwyr sy'n blant ym mis Mawrth 2020. Mae Merthyr Tudful yn cynnal arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion a defnyddwyr sy'n blant unwaith y flwyddyn; o ganlyniad, caiff y ffigurau eu diweddarau'n flynyddol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	96%	=3/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	94%	=4/19	11%	81%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Merthyr Tudful ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Harri Webb – Bardd y bobl. Harri Webb oedd y llyfrgellydd yn llyfrgell Dowlais yn y 1950au/1960au. Trefnwyd nifer o weithgareddau i ddathlu bywyd Harri Webb, a hefyd i ysbrydoli cariad at farddoniaeth ymhlith pobl ifanc yr ardal. Teimlai'r rhai a gymerodd ran yn y prosiect eu bod wedi gwella eu dealltwriaeth o hanes lleol ac wedi cael mwy o hyder i ysgrifennu.
- Adnewyddu pasys bws – Bu staff llyfrgell yn helpu unigolion i adnewyddu eu pasys bws. Byddai llawer o unigolion heb bws oni bai eu bod wedi cael defnyddio'r cyfrifiaduron personol yn y llyfrgell a chael cymorth gan staff llyfrgell i lenwi'r cais am bws newydd. Roedd y cymorth a gafwyd gan staff llyfrgell yn amhrisiadwy i lawer. Erbyn 31 Rhagfyr 2019, roedd dros 6,090 o unigolion wedi cael help.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r

tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Merthyr Tudful ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						[Fframwaith 6]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	94%	1/18	25%	75%	94%	94%
c) iechyd a lles	89%	3/19	38%	69%	96%	88%
d) lle diogel a chroesawgar	100%	1/19	90%	96%	100%	100%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid						[Fframwaith 6]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	99%	=1/18	78%	91%	99%	98%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	100%	=1/18	88%	97%	100%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	95%	=2/17	65%	85%	99%	94%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	99%	=2/18	85%	96%	100%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.2	=13/19	8.0	9.1	9.5	9.0
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,564	15/22	2429	3987	6874	3,820
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,055	9/22	239	909	2131	948
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	145	11/22	78	145	244	149
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²						
	406	17/22	19	140	541	417
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	10	7/22	4	9	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	62%	2/22	14%	30%	64%	63%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£7,798	21/22	£7,260	£12,448	£23,333	£8,820
b) % ar staff	54%	17/22	48%	61%	76%	52%
% ar adnoddau gwybodaeth	21%	2/22	5%	13%	22%	20%
% ar offer ac adeiladau	10%	5/22	0%	8%	28%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	15%	13/22	1%	18%	35%	25%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0.00	=22/22	£0	£1,567	£13,027	£0
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Merthyr Tudful ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Mawrth 2020. Ni fu unrhyw newidiadau ers cynnal yr arolwg diwethaf (oedolion a phlant) ym mis Mawrth 2019. Mae lefelau bodlonrwydd yn parhau'n uchel, a chofnododd Merthyr y lefelau bodlonrwydd uchaf yng Nghymru o ran canran yr oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel a chynhwysol a nifer yr oedolion sy'n teimlo bod y llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd. Mae'n parhau i gofnodi lefelau uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid. Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant, ac erbyn hyn mae Merthyr Tudful yn un o bedwar awdurdod yn unig sy'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau a nodwyd a gweithgareddau ledled yr holl fannau gwasanaeth (craidd ac ychwanegol).

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae Merthyr Tudful yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac nid oes unrhyw newid er 2017/18. Mae nifer yr ymwelwyr wedi gostwng er 2018/19, ac maent yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Cafodd llawer o lyfrgelloedd eu heffeithio gan Covid-19 a'r lleihad yn nifer yr ymweliadau yn Chwefror/Mawrth 2020. Mae nifer y llyfrau oedolion a fenthycwyd wedi cynyddu, ac mae perfformiad yn y maes hwn yn uwch na'r canolrif fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae benthyciadau plant wedi cynyddu 60% er 2017/18, er bod y perfformiad yma yn y chwarter isaf yng Nghymru. Fel y rhan fwyaf o'r awdurdodau ledled Cymru, mae Merthyr wedi gweld cynnydd yn nifer y lawrlwythiadau electronig. Mae hyn wedi cynyddu 35% er 2017/18.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Mae gwariant ar gaffaeliadau wedi cynyddu unwaith eto yn 2019/20, gan arwain at gynnydd o 8.5% er 2017/18. O ganlyniad, mae Merthyr erbyn hyn yn un o bum awdurdod yn unig sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer DA 9, ac mae'n wahanol i'r patrwm cyfredol gan ei fod yn gweld cynnydd mewn benthyciadau llyfrau oedolion a phlant. Mae gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg, ynghyd â benthyciadau Cymraeg, wedi gostwng er 2018/19. Mae'r targedau ar gyfer DA 10 (Cymraeg) yn parhau i gael eu cyflawni, ond mae benthyciadau Cymraeg yn parhau'n is na'r canolrifau yng Nghymru, gan adlewyrchu'r ardal sy'n cael ei gwasanaethu o bosibl. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi'i chynnal drwy gydol y fframwaith, ac mae defnydd yma wedi'i gynnal, gyda gwasanaethau'n cofnodi'r lefelau defnyddio uchaf ond un yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn wahanol i'r patrwm yng Nghymru lle mae'r defnydd yn lleihau. Mae perfformiad mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau hefyd wedi aros yr un fath ag yr oedd yn 2018/19 ac mae'r targedau'n parhau i gael eu cyflawni.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Mae lefelau staffio wedi'u cynnal ar lefelau 2017/18. Fel y nodwyd yn 2018/19, mae swydd llyfrgellydd cymwysedig yn parhau'n wag yn y gwasanaeth. O ganlyniad, nid yw'r lefel staff proffesiynol wedi newid. Mae'r targedau staffio (DA 13) yn parhau heb eu cyflawni, ac mae cyfanswm y staff a chyfanswm y staff proffesiynol yn is na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn nodi nad yw'n debygol y bydd nifer y staff yn cynyddu, ac nad oes cynlluniau ychwaith i gwtogi staff. Er hyn, mae'r gwasanaeth yn teimlo ei fod yn cyflawni cymaint ag sy'n bosibl yn y sefyllfa bresennol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli o hyd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig er 2018/19. Mae cyfanswm y gwariant cyfalaf fesul pen o'r boblogaeth yn y chwarter isaf yng Nghymru. Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi'u cynnal drwy gydol y fframwaith, ac maent yn uwch na'r canolrif fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Ni chafwyd unrhyw adroddiadau am oriau agor heb staff, achosion heb eu cynllunio o gau gwasanaeth, na gwasanaeth danfon i'r cartref heb ei gyflawni.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Gweledigaeth strategol yr Ymddiriedolaeth yw: 'Bydd llyfrgelloedd yn ysbrydoli pobl Merthyr Tudful i fwynhau darllen, ehangu'u gwybodaeth a gwella'u sgiliau, cyfoethogi ansawdd eu bywyd a'u hymbweru i gyflawni'u llawn potensial'. Mae'r weledigaeth hon yn uniongyrchol gysylltiedig â datganiad o weledigaeth Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful. Nodir hefyd rôl y gwasanaeth llyfrgell yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; yn fwyaf arbennig, effaith y gwasanaeth llyfrgell ar iechyd a llesiant, hybu cynhwysiant digidol a datblygu blaenoriaethau diwylliannol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, nodir mai'r flaenoriaeth yn y tymor byr i wasanaeth llyfrgell Merthyr, fel pob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, fydd canolbwyntio ar adfer yn dilyn Covid-19. Mynegir y weledigaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth yn nogfen Strategaeth Merthyr Tudful (2019-21). Yn y dyfodol agos, bydd pwyslais parhaus ar ddatblygu gweithgareddau digidol ar y cyd â chydweithwyr yn y gwasanaeth Amgueddfeydd. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod llawer o ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r gwasanaeth y bydd angen i lyfrgelloedd ei ddarparu yn y dyfodol agos, a bydd angen ailgysylltu â defnyddwyr ac ailwerthuso'r gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig cyn y pandemig. Mae heriau lefelau staffio isel a chyfyngiadau'r gyllideb yn parhau, a bydd y ffactorau hyn yn amharu ar gynlluniau yn y dyfodol.

6 Casgliad

Darperir gwasanaethau llyfrgell ym Merthyr Tudful gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ar ran y Cyngor Bwrdeistref. Mae'r gwasanaeth wedi perfformio'n dda drwy gydol y fframwaith ac mae'n un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffael. Mae ymgynghori rheolaidd hefyd yn sicrhau bod lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid wedi parhau'n

uchel drwy gydol y fframwaith, gan fod Merthyr yn gallu rhagweld anghenion ei gymuned a darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Yn wahanol i lawer o wasanaethau llyfrgell eraill yng Nghymru, mae Merthyr Tudful wedi gweld cynnydd yn y rhan fwyaf o ffigurau mewn perthynas â defnyddwyr, gan gynnwys nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan oedolion a phlant a nifer yr aelodau. Mae lefelau staffio wedi parhau ar lefelau 2017/18, ond maent yn parhau'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Er gwaethaf hyn, mae'r gwasanaeth yn dweud ei fod yn teimlo ei fod yn defnyddio ei staff er budd cwsmeriaid. Mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid i ddarparu gweithgareddau priodol ar gyfer ei gymunedau, a'r her fydd cynnal lefelau adnoddau er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth o safon.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgriadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgriadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.